
I ddathlu Bywyd / to Celebrate the life of

# ***Robert Eirwyn Williams***
# ***Robin Pant Glas***



***18.01.1942 - 21.03.2020***

Clwb Golff Caernarfon Golf Club

23.09.2023 @ 2.30pm

# Croeso - Welcome

## Teyrnged
*Eirian*

## "The Dash"
*Glenys*

## Darlleniad/ Reading
*Mari Lynn*

## Cân / Song
*Angharad*

*Lluniaeth Ysgafn / Light Refreshments*

**Cyfle i sgwrsio a hel atgofion am Robin**
*An opportunity to chat and reminisce about Robin*

# ROBIN PANT GLAS

*Pa ots os ydyw'n wanwyn?*
*Ni chawn un awr o'i flas*
*Wrth roi i orwedd yn y pridd*
*Ddarn anferth o Bant Glas.*

*Y dyn oedd fwy na'i hunan,*
*Â'r galon fwya' 'rioed;*
*Mi roedd y byd yn llawer gwell*
*Lle bynnag roddai'i droed.*

*Y ddafad ddu, dyn tafarn,*
*Y tynnwr coes mawr clên,*
*A safai o flaen unrhyw beth*
*A'i gymryd ar ei ên.*

*Mewn oes sy'n brin o degwch*
*Bu'n gefn i'w deulu i gyd,*
*Ei ddwylo cadarn fel dau ddrws*
*Ar led y pen o hyd.*

Ni chaiff yr hwyl, na'r chwerthin
Ei ddilyn heddiw i'r gro:
Ei enw fydd yn dal ar ôl
Ar siediau hyd y fro.

Mi fydd o'n dal i herian,
Â'i hwyl a'i siarad plaen
Yn llenwi'n straeon bach fin nos,
Wrth i fywyd fwrw 'mlaen.

A phan fydd lleuad borffor
Dros Arfon, Môn a Llyn,
O bell daw chwiban Robin Sych
I godi calon dyn.

*Meirion MacIntyre Huws*
*Mawrth 27, 2023*



*Dymuna y teulu ddiolch o waelod calon i bawb sydd wedi dod i ddathlu bywyd Robin ac am yr holl gefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf*

The family would like to thank everyone who came to celebrate Robin's life and also for all the support over the past few years.